**COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU**

HEDDLU DE CYMRU

# DATGANIAD CRYNO O GYFRIFON

*(CYFRIFON Y GRŴP)*

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN

**31 MAWRTH 2025**



Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

South Wales Police and Crime Commissioner

**HEDDLU DE CYMRU**

**SOUTH WALES POLICE**

## DATGANIAD Y PRIF SWYDDOG ARIANNOL I COMISIYNYDD

### CYFLWYNIAD

**Mae Datganiad Cryno o Gyfrifon 2024-25 yn nodi prif weithgarwch refeniw a chyfalaf y flwyddyn ar gyfer Heddlu De Cymru. Nid yw'r gwariant refeniw yn cynnwys trafodiadau penodol sy'n ymwneud â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), er mwyn symleiddio'r broses o gyflwyno'r cyfrifon. Nid yw'r trafodiadau hyn yn effeithio ar y trosglwyddiad i Gronfa'r Heddlu.**

### Y CYFRIF REFENIW

**Cymeradwywyd cyllideb refeniw net o £386.96m ar gyfer 2024-25 ym mis Chwefror 2024 i ariannu ymrwymiadau presennol o ran gwariant a blaenoriaethau'r Heddlu a nodwyd.**

### CRONFEYDD WRTH GEFN

**Balans Cronfa'r Heddlu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oedd £11.4m sydd islaw'r lefel darged, sef £15.6m (3% o'r Gwariant Refeniw Gros). Fodd bynnag, roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o £0.5m o gymharu â 2023-24 o ganlyniad i danwariant bach ar ddiwedd y flwyddyn. Cedwir £71.2m mewn cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi at ddibenion refeniw a chyfalaf penodol.**

### CYLLID CYFALAF A BENTHYCA

**Y gwariant cyfalaf ar gyfer y cyfnod oedd £40.96m a chafodd ei ariannu drwy fenthyciadau, cyfraniadau refeniw, derbyniadau cyfalaf a grantiau penodol. Gwariant cyfalaf yw arian a gaiff ei wario gan Heddlu De Cymru er mwyn prynu, uwchraddio a gwella asedau megis eiddo, cerbydau a TGCh. Y gwahaniaeth rhyngddo a gwariant refeniw yw bod Heddlu De Cymru yn cael y budd o wariant cyfalaf ar asedau dros fwy na blwyddyn.**


### LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

**Cyhoeddir Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y cyd ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ochr yn ochr â'r Datganiad o Gyfrifon. Mae'r datganiad hwn yn nodi'r amgylchedd rheoli mewnol, yn gwneud sylwadau ar ei effeithiolrwydd ac yn nodi materion ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig ar ‘Delivering Good Governance’ i Gyrff Plismona gan CIPFA ym mis Gorffennaf 2016, sydd wedi'u hategu gan ganllawiau CIPFA ar ‘Application of the Good Governance Framework 2020-21’, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021, mewn ymateb i effaith barhaus pandemig y Coronafeirws ar drefniadau llywodraethu.  Mae'r Cyd-Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i lunio yn unol â'r canllawiau hyn.**

South Wales
Police and Crime Commissioner
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

## AR BETH Y GWARIWYD YR ARIAN YN 2024-25

## GWARIANT REFENIW




**Dengys yr uchod fod cyflogau a chostau cysylltiedig ar gyfer Swyddogion a Staff yr Heddlu (£380.63m) yn cyfrif am 75% o'r gwariant gros, sef £519.2m. Mae enghreifftiau o wariant o fewn y £82.18m ar gyfer Cyflenwadau a Gwasanaethau a chostau eraill yn cynnwys Cyfathrebu a Chyfrifiadura (£14.7m), Taliadau i Heddluoedd Eraill (£29.0m), Taliadau Eraill i Drydydd Partïon (£8.7m) a Chostau Ymchwiliol a Gweithredol (£7.5m). Hefyd, gwariwyd £31.8m i dalu costau cyllid cyfalaf sy'n cynnwys llog a dalwyd ar fenthyciadau, swm a neilltuwyd i ad-dalu'r prif swm a chyfraniad refeniw i gyllid cyfalaf.**

**Dangosir cost plismona yn Ne Cymru a'r cyllid ar gyfer 2024-25 a'r flwyddyn flaenorol isod (a gyflawnir at ddibenion monitro):**


| | 2024-25 £m | 2023-24 £m |
|---|---|---|
| Cyflogau a Phensiynau Swyddogion yr Heddlu | 208.6 | 189.5 |
| Cyflogau a Phensiynau Staff yr Heddlu | 79.3 | 76.3 |
| Cyllidebau Datganoledig | 13.1 | 12.0 |
| Cyllidebau'r Heddlu / Cyllidebau wrth Gefn | 51.8 | 35.9 |
| Cyllidebau Canoledig | 19.6 | 18.5 |
| Cyllidebau a Ariennir yn Allanol | 26.7 | 61.4 |
| Cyllidebau Cydweithredol | 72.0 | 57.3 |
| Cyllidebau Canolog | 29.2 | 14.1 |
| Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu | 18.9 | 16.3 |
| **Gwariant Gros** | **519.2** | **481.1** |
| Llai Grantiau ac Incwm | (132.2) | (122.4) |
| **Gwariant Net** | **387.0** | **358.7** |

**Dengys y tabl isod sut yr ariannwyd Heddlu De Cymru yn y flwyddyn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.**

| | 2024-25 £m | 2023-24 £m |
|---|---|---|
| Incwm o'r Dreth Gyngor | (180.4) | (163.8) |
| Incwm o Ardrethi Annomestig (Llywodraeth Cymru) | (0.5) | (0.4) |
| Grant Cynnal Refeniw (Llywodraeth Cymru) | (62.0) | (62.1) |
| Grant yr Heddlu (y Swyddfa Gartref) | (144.1) | (132.4) |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(387.0)** | **(358.7)** |

## AR BETH Y GWARIWYD YR ARIAN YN 2024-25

## GWARIANT CYFALAF




**Ariannwyd cyfanswm y gwariant cyfalaf £41.0m o'r ffynonellau canlynol:**

| Ffynonellau Ariannu | £m |
|---|---|
| Cyfraniadau Refeniw | 13.0 |
| Grantiau a Chyfraniadau Eraill | 14.2 |
| Defnyddio Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn | 3.6 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1.6 |
| Benthyca | 8.6 |
| **Cyfanswm y Cyllid** | **41.0** |

**Mae'r gwariant cyfalaf yn cynnwys cynnydd tuag at ddatblygu Maes Saethu Arfau Tanio'r Tri Heddlu, rhaglen adnewyddu cerbydau a galluogrwydd symudol ychwanegol ac mae ar y trywydd cywir i gyflawni 'uchelgais y Person Cywir, yn y Lle Cywir, ar yr Adeg Gywir'.**

## Y FANTOLEN

**Mae'r tabl isod yn crynhoi mantolen yr hyn y mae Heddlu De Cymru yn 'berchen arno' a'r hyn 'sy'n ddyledus ganddo' i eraill:**


| | 2024-25 £m | 2023-24 £m |
|---|---|---|
| Asedau Diriaethol (Eiddo, Cerbydau, Systemau Cyfrifiadurol a Chyfarpar) | 220.8 | 204.8 |
| Asedau Anniriaethol (Meddalwedd Gyfrifiadurol) | 3.7 | 1.8 |
| Dyledwyr Hirdymor | 0.2 | 0.2 |
| Stociau | 3.4 | 2.7 |
| Dyledwyr (Arian sy'n Ddyledus i Heddlu De Cymru) | 42.9 | 69.7 |
| Credydwyr (Arian sy'n Ddyledus gan Heddlu De Cymru) | (47.3) | (51.3) |
| Buddsoddiadau, Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb I Arian Parod | 65.4 | 40.6 |
| Darpariaethau | (6.5) | (6.1) |
| Benthyciadau Hirdymor | (34.3) | (33.3) |
| Llai Cronfedydd Gefn Annefnyddiadwy | (165.7) | (153.2) |
| **Cyfanswm yr Asedau llai Rhwymedigaethau** | **82.6** | **76.0** |
| **Ariennir gan:** | | |
| Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiawy | (82.6) | (76.0) |
| | **(82.6)** | **(76.0)** |

**Mae Cronfeydd wrth Gefn Annefnyddiadwy yn dal addasiadau technegol i'r cyfrifon, gan gynnwys addasiadau a wneir i asedau ar gyfer dibrisiant ac ailbrisiadau, ac nid ydynt yn gronfeydd wrth gefn a gefnogir gan arian parod.**

## BUDDSODDI A BENTHYCA

**Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan Heddlu De Cymru werth £68.8m o arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod wedi'i ddal naill ai mewn Cyfrifon Galw neu Gronfeydd Marchnadoedd Ariannol.**

**Ar yr un dyddiad adrodd, roedd gwerth £30.7m o fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus i'w had-dalu o hyd fel y dangosir isod (ystyrir bod £0.8m yn fenthyciad byrdymor):-**




**Felly, sefyllfa gyffredinol y trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oedd gwerth £38.1m o fuddsoddiadau net.**

## CYFLAWNIADAU'R HEDDLU CYFAN YN 2024-25

### Y Sefyllfa Alldro Derfynol

**Yr Alldro Refeniw ar gyfer 2024-25 yn erbyn cyllideb refeniw net o £386.96m oedd tanwariant o £0.5m. Alldro’r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023-24 oedd gydbwyso yn erbyn y gyllideb. Cafodd y Datganiad Drafft o Gyfrifon a'r Datganiad Terfynol o Gyfrifon eu llunio a'u cyhoeddi erbyn 30 Mehefin a llofnodwyd y Datganiad o Gyfrifon Terfynol gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 30 Hydref pan dderbyniwyd Barn Archwilio ddiamod.**


### Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif

**Ar gyfartaledd, mae Heddlu De Cymru yn cael 20,000 o alwadau brys 999 bob mis, neu 657 o alwadau bob dydd. At hynny, mae'r heddlu yn cael ychydig dros 8220 o alwadau 101 nad ydynt yn rhai brys bob dydd. Atebwyd 90% (84.8% yn 2023-24) o alwadau 999 o fewn 10 eiliad, sydd y targed cenedlaethol. Yn gyffredinol, atebwyd 99.8% o alwadau 999 (99.8% yn 2023-24), ac atebwyd 92.1% o alwadau nad oeddent yn rhai brys (2023-24: 88.5%).**

### Cyfradd Canlyniadau Cadarnhaol yn ôl Grŵp Trosedd a Grŵp SYG

**Caiff troseddu eu cofnodi yn erbyn mathau o droseddau SYG (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Y drosedd y rhoddir gwybod i Heddlu De Cymru amdani fwyaf yw “Stelcio ac Aflonyddu” ac mae'n cynrychioli 11.87 o achosion fesul 1,000 o bobl (y cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr yw 10). Er bod mwy o droseddau o rhai hyn, “Dwyn o siopau” a “Trefn**

**Gyhoeddus" na'r cyfartaledd cenedlaethol, mae pobl yr un mor debygol neu'n llai tebygol yn gyffredinol o wynebu trosedd yn Ne Cymru nag mewn rhannau eraill o'r wlad. Mae De Cymru yn lle mwy diogel ar gyfer "Trais heb Anaf", "Lladrad" a "Throseddau yn ymwneud á Cherbydau". Cyflwynir tabl o'r troseddau y rhoddwyd gwybod amdanynt yma:**




## EDRYCH YMLAEN

**Mae ansicrwydd mawr ym maes plismona ar hyn o bryd a disgwylir i'r Adolygiad o'r Dirwedd Plismona / y Papur Gwyn a'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, a gyhoeddir bob tair blynedd, gael eu cyhoeddi erbyn i'r archwiliad o'r datganiadau ariannol hyn ddod i ben. Gyda rhai awdurdodau maerol cyfun yn bodoli yn Llundain, bydd y broses arfaethedig o ddatganoli swyddogaethau'r meiri hyn yn golygu y byddant yn ymgymryd â phwerau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu – gyda Chomisiynwyr yr Heddlu yn dod yn is-feiri, er enghraifft. Mae'r sefyllfa yng Nghymru yn wahanol, am fod Llywodraeth Cymru wedi'i datganoli. Mae plismona yn fater a gedwir yn ôl o dan gylch gwaith y Swyddfa Gartref ac, felly, bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn parhau i fod yn atebol am wasanaethau plismona. Yn y tymor hwy, mae'n bosibl y bydd y dull gwahanol hwn o lywodraethu heddluoedd yn effeithio ar heddluoedd yng Nghymru, yn enwedig os bydd y fformiwla gyllido yn newid. Er ei fod i'w groesawu o safbwynt cynllunio ariannol tymor canolig, mae'n anochel y bydd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, a gyhoeddir bob tair blynedd, yn un heriol, a gyda'r adolygiad o'r dirwedd yn creu Canolfan Blismona Ganolig gyda swyddogaethau canolog, mae'n bosibl y caiff amlen gyllid yr heddlu ei brigdorri ymhellach gyda llai o gyllid yn cael ei ddyrannu i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a heddluoedd o ganlyniad i hynny. Bydd drafftio datganiadau cywir o gyfrifon, cynnal archwiliadau dilynol a chyhoeddi datganiadau o gyfrifon wedi'u harchwilio yn rhan hanfodol o drefniadau rheoli ariannol mewn cyfnod mor ansicr.**

**Gellir dod o hyd i'r Datganiad o Gyfrifon cyhoeddedig llawn a barn Archwilydd Cyffredinol Archwilio Cymru ar y gwefannau canlynol:**

- **Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru**
  Datganiad Cyfrifon Blynyddol - Comisiynyddd yr Heddlu a Throseddau

- **Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru**
  Datganiad Cyfrifon Blynyddol | Heddlu De Cymru (south-wales.police.uk)